OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1573 (Cy. 330)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *18 Rhagfyr 2020* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Yn unol â pharagraff 4(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran y Rheoliadau hyn sy'n dod i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn heb fod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad(**2**).

(**1**) 2018 p. 16; gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1), a pharagraff 53(2) o Atodlen 5 iddi.

(**2**) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).